**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Chwefror 22ain 2016 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, Marilyn Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Margaret Bowe, Colin Hughes, Philip Stevens.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**177.** **Cyflwyniad gan Emily Reddy ar Fenter Sgiliau Cymunedol Cefn Gwlad.** Dywedodd y cadeirydd fod Emily Reddy yn methu a mynychu'r cyfarfod oherwydd salwch ac oherwydd hyn fod y cyflwyniad wedi ei ddileu.

**178.** **Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**179.** **Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych - personol.
(2) Cyng Gaynor Wood-Tickle - eitem agenda 11(2) - Neuadd y Dref Dinbych - personol.
(3) Cyng Rob Parkes - eitem agenda 8(1)(2) - cynllunio - Pen y Bryn Garage - personol.
(4) Cyng Medwyn Williams - eitem agenda 7(11) - Amgueddfa Dinbych - personol

**180.** **Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 25ain 2016 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 8fed 2016.**

**181.** **Materion yn codi:** 25.1.16 (1) Cofnod 161(1)(4) - Siarteri Dinbych. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth Archifydd y Sir. Nodwyd yr ymateb.
(2) Cofnod 165(7) - Maes Hyfryd. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Ian Weaver, Cynlunio Sir Ddinbych. Nodwyd yr ymateb.
(3) Cofnod 173 - Amgueddfa Dinbych. Eglurodd y Cyng Medwyn Williams, tra'n derbyn fod y cofnod yn gywir, y tebygrwydd oedd y byddai'r tŷ yn cael ei atgyweirio'r a'i osod ar rent ac nid i'w ddefnyddio fel tŷ ar gyfer gofalwr.

8.2.16. Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**182.** **Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Ymhelaethodd y Maer ar dri mater, sef (1) y cyngerdd elusennol lle codwyd £2,358. Diolchodd y Maer i'r cynghorwyr a gynorthwyodd ar y noson. (2) Noson cyflwyno Cynnig - noson chwedlonol gyda phresenoldeb da. (3) Cyfarfod blynyddol Cymdeithas Cancr Gogledd Cymru - noson dda iawn a dysgwyd llawer.

**183.** **Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi tair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Leonard Cheshire Disability - cytunwyd i wahodd Kimberly Edmunds to roddi cyflwyniad i'r cyngor.

(2) Digwyddiad Noson Cyflwyno Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd 10.3.16 - y Cyng Raymond Bartley yn mynychu.
(3) Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM - cau llysoedd - nodwyd. Mynegwyd pryder gan yr aelodau ynglŷn â chau'r unig lys yn Sir Ddinbych, hynny yw, Prestatyn a'r amser teithio a'r pellter i rai oedd yn mynychu'r llysoedd. Cytunwyd i yrru llythyr i'r gwasanaeth llysoedd yn mynegi pryderon y cyngor ynglŷn â chau'r llys a'r problemau ynglŷn â theithio i ac oddi wrth y llys ynadon yn Llandudno.
(4) Aelodaeth Un Llais Cymru 2016/2017. Nodwyd a thrafodwyd y llythyr. Dywedwyd nad oedd Un Llais yn rhoddi gwerth am arian. Cytunwyd i beidio ag ymaelodi.
(5) E-bost oddi wrth Shaun Jackson ynglŷn â Gwesty'r Goron. Nodwyd yr e-bost. Dywedwyd fod hyn yn newyddion da i Ddinbych. Cytunwyd i gefnogi mewn egwyddor yr hyn a fwriadwyd ac i'r cyngor edrych ymlaen at fwy o wybodaeth mewn amser.
(6) E-bost oddi wrth James Ferguson ynglŷn â chyswllt i wefan y cyngor. Eglurodd clerc y dref fod y mater wedi ei gyfeirio at y cyngor llawn oddi wrth bwyllgor amgylched a chyllid am benderfyniad. Dywedodd y Cyng Tickle ei fod wedi edrych at y gwefannau a awgrymwyd ac nid oeddynt yn safleoedd masnachol. Cytunwyd i nodi'r e-bost yn unig ac i gymryd dim gweithred bellach.
(7) Dinbych yn ei Flodau - cais i ddefnyddio basgedi crog y cyngor tref. Eglurodd y Cyng Catherine Jones fod y grŵp yn cysylltu â'r gwahanol siopau yn y dref ac yn ei hysbysebu y byddai basgedi ar gael ac yna bydd y cyfrifoldeb ar y siopau unigol os oeddynt am ddefnyddio'r basgedi ac i gael y caniatâd adeilad rhestredig angenrheidiol i osod y basgedi. Gofynnodd y Cyng Medwyn Williams beth fyddai'n digwydd i'r basgedi ar ddiwedd y tymor. Cytunwyd yn y diwedd i roddi caniatâd i ddefnyddio'r basgedi.
(8) Ombwdsman - Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheolaeth Cofnod Da - nodwyd. Roedd y ddogfen hir ar gael i'w darllen gan glerc y dref.
(9) E-bost oddi wrth y Cyng Gwyneth Kensler ynglŷn ag Amgueddfa Dinbych. Gwahoddwyd y Cyng Kensler gan y cadeirydd i ymhelaethu. Dywedodd y Cyng Kensler mae'r bwriad yr e-bost oedd cadarnhau'r angen i'r amgueddfa i gael refeniw. Roedd costau cyson a'r angen i gael hyd i ariannu er mwyn talu'r biliau. Awgrymodd clerc y dref, a chytunwyd, i gadw golwg ar y sefyllfa ac i drafod gyda'r cyngor os fyddai unrhyw broblem yn codi.
(10) E-bost oddi wrth y Cyng Mark Young ynghlŷn â diffygion hwyneb ffyrdd yn y dref. Dywedwyd fod y diffygion wedi eu trwsio. Cytunwyd i yrru gair o ddiolch i Trevor Car yn CSDd.

**184.** **Cynllunio**: 1. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Tŷ Coch, Ffordd y Rhyl - newid defnydd o salon iechyd a harddwch i annedd preswyl.
(2) Pen y Bryn Garage, Lôn Ffynnon Barker - datblygu 0.67 hectar o dir drwy ddymchwel garej fasnachol a chodi dau dŷ ar wahân a newidiadau i'r fynedfa bresennol ar gyfer cerbydau (cais amlinellol gyda'r holl faterion ar gadw)

**185.** **Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Chwefror 16eg 2016.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Chwefror 17eg 2016.

**186.** **Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor:** Dim.

**187.** **Adroddiadau**: (1) <u>Cyfarfod Blynyddol Gefeillio.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Trafodwyd e-bost oddi wrth gadeirydd y gymdeithas ynglŷn ag anrheg i Biebertal ar gyfer dathliad pen-blwydd 25ain a chytunwyd i gael mwy o wybodaeth

cyn gwneud penderfyniad. Roedd noson gymdeithasol wedi ei threfnu ar Fawrth 5ed yn Eirianfa am 6.30 o'r gloch. Awgrymwyd y dylai'r Maer fynychu'r dathliadau pen blwydd yn 25ain.

(2) Rheolaeth Neuadd y Dref. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Medwyn Williams - dylai'r gwaith o osod y drws diogelwch ddechrau cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Yn ariannol roedd popeth i weld yn iawn - dylai'r incwm a'r gwariant fod yn iawn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ystyriaeth i'w roddi i adleoli'r pwynt larwm tan wrth y drws allanol, oedd yn cael ei gamddefnyddio gan rhai ifainc, i'r ochr mewnol y drws diogelwch. Cyfeiriodd clerc y dref at y CLG ar gyfer 2016/2017 - cytunwyd i'r cytundeb gael ei arwyddo gan glerc y dref.

(3) Masnach Deg. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(4) Llywodraethwyr Ysgol Frongoch. Dywedodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle fod yr ysgol yn mynd o nerth i nerth a thalwyd canmoliaeth i'r gofalwr newydd.

(5) Dinbych yn ei Flodau. Dywedodd y Cyng Catherine Jones fod £300 wedi ei dderbyn oddi wrth Grŵp Cynefin, cerigos wedi eu rhoddi a hefyd blodau o Morrisons. Ymholiadau wedi eu gwneud gyda chontractwyr.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**187. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) Iard y Stesion yn dod yn ei flaen yn dda iawn a'r gobaith oedd cael caniatâd mewn tuag wythnos. (2) Safle Lôn Ganol - argymhellwyd dau enw o'r grŵp ardal aelodau i fynychu cyflwyniad pan ond un oedd ei angen. Ni chrybwyllwyd Cyngor Tref Dinbych. Fe ddylai'r cyngor tref gael ei gynrychioli ar y panel. Gofynnodd y Cyng Bartley am gefnogaeth y cyngor tref i fynychu fel cynghorydd tref - cytunwyd ar hyn. (3) Cyn Gorsaf yr Heddlu - 99% wedi ei werthu.

**188. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | CSDd - 4ydd taliad a'r olaf ynglŷn â chostau gweithredol Neuadd y Dref - (Rhif siec 005828) | | £9,250.00 |
| (2) | (Zen Internet - darpariaeth ADSL (Mawrth) (Rhif siec 005829) | - | £18.37 |
| (3) | NWN Media Ltd - hysbyseb swydd (Rhif siec 005830) | - | £385.20 |

Cyfanswm taliadau: £ 9,653.57.

2. Materion ariannol eraill: Cyfeiriodd clerc y dref at y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â thorri glaswellt ac ati yn ystod 2016/2017. Derbyniwyd y dyfynbris.

**189. Sedd Wag y Cyngor - Ward Uchaf.** Dywedodd clerc y dref fod y Cyng Marilyn Jones wedi ei hethol.

**190**. **Sedd Wag y Cyngor - Ward Isaf.** Dywedodd clerc y dref y derbyniwyd dau gais ar gyfer cyfethol i'r sedd wag. Dosbarthwyd y resume / CV y ddau ymgeisydd ac yna cafwyd pleidlais gudd. Yn dilyn y bleidlais **Penderfynwyd fod Alyn Ashworth yn cael ei gyfethol i'r sedd wag yn Ninbych Isaf.**

**191. Cadarnhad Enwebiad am Swydd 2016/2017:**

(1) Cadarnhaodd y Cyng Margaret Bowe (trwy lythyr) ei bod yn derbyn yr enwebiad ar gyfer Maer.
(2) Cadarnhaodd y Cyng Roy Tickle ei fod yn derbyn yr enwebiad ar gyfer Dirprwy Faer.

**192. Apwyntiadau i lenwi gwagleoedd ar is bwyllgorau'r cyngor, gweithgorau a chynrychiolaethau ar gyrff allanol:** Cyfeiriodd clerc y dref ar y rhestr a ddosbarthwyd. Cytunwyd ar yr apwyntiadau canlynol:

Archwiliad dogfennau - un gwagle - neb yn gwirfoddoli.

Tân Gwyllt - dau wagle - Cyng Mark Young a Rob Parkes.

Goleuadau Nadolig - dau wagle - Cyng Marilyn Jones a Medwyn Williams.

Pwyllgor Sioe Dinbych - un gwagle - Cyng Catherine Jones.

Ysgol y Santes Ffraid - un gwagle - neb yn gwirfoddoli.

Gefeillio - un gwagle - Cyng Gaynor Wood-Tickle.

CCTCGC - un gwagle fel eilydd - neb yn gwirfoddoli.

Grŵp Diogelwch Dinbych - un gwagle - neb yn gwirfoddoli.

Ramps & Rails - un gwagle fel eilydd - Cyng Raymond Bartley.

Masnach Deg - un gwagle - Cyng Marilyn Jones

**193. Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2016/2017.** Trafodwyd a chymeradwywyd rhestr dyddiadau a ddosbarthwyd yn dilyn un gwelliant - Pwyllgor Cynllunio Ebrill 18fed 2017 ac nid yr 11eg.

**194. Apwyntio Bwrdeiswyr Anrhydeddus.** Dywedodd clerc y dref ei bod yn beth amser ers i'r cyngor tref apwyntio Bwrdeiswyr Anrhydeddus a chyfeiriodd at y protocol a fabwysiadwyd gan y cyngor yn 2007. Apwyntiwyd tri bwrdeisiwr anrhydeddus ond yn anffodus fod dau bellach wedi ein gadael. Cytunwyd i roddi ystyriaeth i apwyntio bwrdeiswyr anrhydeddus newydd. Aelodau i gael amser i ddarllen y protocol ac i is bwyllgor gael ei apwyntio yng nghyfarfod nesaf y cyngor llawn ar Fawrth 21ain.

**195. Protocolau Hunan Reoleiddio.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gary Williams a Phwyllgor Safonau Sir Ddinbych. Eglurodd clerc y dref mae'r syniad oedd cyflwyno'r cysyniad o hunan reolaeth ynglŷn â thoriadau lefel isel o'r cod ymddygiad. Darparwyd templed i'w ddefnyddio gan y cyngor tref. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod y protocol yn glir. Cytunwyd i dderbyn y protocol.

**196. Swyddfa Bost Dinbych.** Dywedodd y Cyng Raymond Bartley fod staff Swyddfa Bost Dinbych yn disgwyl penderfyniad o fewn dyddiau. Nid oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael ar hyn o bryd. Y bwriad oedd i fasnachfraint. Dywedodd y Cyng Rob Parkes fod deisebau mewn mannau eraill wedi bod yn effeithiol a dylai'r cyngor tref wrthwynebu'r bwriad i gau. Roedd yn anodd gweld i ble fyddai'r swyddfa bost yn adleoli. Os byddai'r swyddfa bost yn cau bydd Dinbych ac adeilad mawr gwag. Gofynnodd y Cyng Roy Tickle a fyddai cau'r swyddfa bost yn effeithio ar y swyddfa dosbarthu. Cytunwyd fod y cyngor yn ysgrifennu yn gwrthwynebu cau'r swyddfa a'i symud i safle arall. Cytunwyd hefyd i grybwyll yr angen am breifatrwydd pan yn y swyddfa bost.

**197. Coleg Myddelton - Ysgoloriaeth Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth y coleg. Roedd y coleg yn gofyn am gymorth y cyngor tref wrth ystyried ceisiadau am ysgoloriaethau. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams ei bod hi'n bwysig fiod yr ysgoloriaethau ar gyfer plant o Ddinbych. Os bydd y cyngor yn cefnogi'r cais dylai'r cyngor fynnu fod yr ysgoloriaethau yn cael eu rhoddi i blant o Ddinbych. Dywedodd y Cyng Rob Parkes y byddai'n syniad da i'r cyngor tref fod yn ymglymedig - byddai'n gam i fod yn negyddol ac roedd yn bwysig fod y cyngor yn cydweithio a'r coleg. Cytunwyd (1) y dylai'r cyngor fod yn ymglymedig a (2) fod y Cyng Gaynor Morgan Rees a Catherine Jones yn cynrychioli'r cyngor tref.

**198. Comisiwn Elusennau - Safle Cyn Ysgol Sir Ddinbych, Lôn Ganol.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr hysbyseb a dderbyniwyd oddi wrth y Comisiwn Elusennau. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod hyn yn dilyn ymlaen o'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd y flwyddyn ddiwethaf yn neuadd y dref. Cytunwyd fod yr aelodau yn gyrru eu sylwadau i glerc y dref erbyn Chwefror 29ain.

**199. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2016/2017.** Dywedodd clerc y dref fod Adran 10 o'r adroddiad yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned. Roedd copïau o'r adran berthnasol wedi eu dosbarthu i'r aelodau a chytunwyd fod yr aelodau yn cael amser i ystyried y cynnwys a'r mater i fod yn eitem agenda yng nghyfarfod nesaf y cyngor llawn ar Fawrth 21ain.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.01 o'r gloch.

Arwyddwyd:........................................................ (cadeirydd)

Dyddiad:.........................